

Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg

Adroddiad ar Brofiad Cleifion o Wasanaethau Cardiaidd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg

Ebrill 2022



CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

www.southglamorganchc.wales



Fformatau

Addas

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

Os hoffech y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu gofynnwch am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

Cynnwys

Y Cyngorau Iechyd Cymuned	Tud 3
Cefndir a Chyflwyniad	Tud 4
Beth a Wnaethom	Tud 6
Pwy sy'n cysylltu â ni	Tud 8
Beth a glywsom	Tud 9
Dysgu o'r hyn a glywsom	Tud 48
Diolchiadau	Tud 50
Adborth	Tud 51
Manylion cyswllt	Tud 52

Y Cyngorau Iechyd Cymuned (y CICau)

Y CICau yw corff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae'r CICau yn annog a chefnogi pobl i gael llais yng nghynllun a darpariaeth gwasanaethau'r GIG.

Mae'r CICau'n gweithio gyda'r GIG, cyrff archwilio a rheoleiddio. Maent yn gyswllt pwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio a chyflenwi gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n eu harchwilio a'u rheoleiddio a'r rheiny sy'n eu defnyddio.

Mae'r CICau yn clywed oddi wrth y cyhoedd mewn sawl gwahanol ffordd. Cyn pandemig y coronafeirws, roedd y CICau yn ymweld yn rheolaidd â gwasanaethau'r GIG i glywed gan bobl tra roeddent yn derbyn gofal a thriniaeth. Yn ogystal, roedd y CICau yn clywed oddi wrth bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol, a thrwy gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol.

Ers pandemig y coronafeirws, mae'r CICau wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl mewn gwahanol ffyrdd.

Mae hyn yn cynnwys arolygon, apiau, fideo-gynadledda a chyfryngau cymdeithasol er mwyn clywed gan bobl yn uniongyrchol am eu barn a'u profiadau o wasanaethau'r GIG, yn ogystal â thrwy grwpiau cymunedol.

Mae 7 CIC yng Nghymru a phob un ohonynt yn cynrychioli llais “y claf a’r cyhoedd” mewn gwahanol rannau o Gymru.

Cyflwyniad a Chefndir


Mae CIC De Morgannwg yn gwneud eu gorau glas i glywed gan gleifion a’r cyhoedd ar draws pob demograffeg, cymunedau a grwpiau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Yn ogystal â gofyn am adborth cyffredinol gan y cyhoedd ar faterion yn ymwneud â’u gofal iechyd, mae’r CIC hefyd yn cynnal ymgyrchoedd penodol, wedi’u targedu, i gael gwybodaeth ac adborth gan gleifion sydd â chyflwr neu anabledd iechyd penodol, neu am wasanaethau penodol yn y GIG, er mwyn sicrhau ein bod yn clywed oddi wrth bob grŵp mewn cymdeithas am ddarpariaeth eu gofal iechyd.

Yn yr achos hwn, roedd y CIC yn awyddus i glywed yn uniongyrchol oddi wrth gleifion sy’n dioddef cyflyrau Cardiaidd, am eu profiadau wrth gael mynediad at Wasanaethau Cardiaidd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.



Ym mis Mawrth 2020, cafodd pandemig Covid-19 effaith andwyol ar bob agwedd ar fywyd bob dydd gan gynnwys mynediad at wasanaethau Gofal Iechyd.



O ganlyniad i gyfyngiadau'r Llywodraeth mewn ymateb i'r pandemig - ymbellhau cymdeithasol, PPE a rheoli heintiau yn ogystal â phwysau cynyddol ar y gweithlu oherwydd salwch a gofynion hunanynysu - bu lleihad yn nifer y gwasanaethau ar draws y GIG. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at gynnydd yn y niferoedd ar restrau aros ac oedi ychwanegol i gleifion wrth geisio apwyntiadau a thriniaethau o fewn systemau'r GIG.


Mae'r CIC yn cydnabod pwysigrwydd cael gwybod beth yw ansawdd bywyd i'r rhai sydd wedi profi oediadau ac sydd ar restr aros ar gyfer eu hapwyntiad cyntaf, diagnosteg neu driniaeth. O gael yr wybodaeth hon, y bwriad yw gwneud argymhellion i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar sut i wella'r profiad o safbwynt y claf, os yw'n briodol gwneud hynny.



Beth a Wnaethom

Oherwydd cyfyngiadau Pandemig Covid-19, mae CIC De Morgannwg wedi methu â chynnal ymweliadau craffu corfforol i Wasanaethau'r GIG ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg fel y byddem dan amgylchiadau arferol. O ganlyniad, bu'n rhaid i ni addasu'r ffordd rydym yn cysylltu â chleifion a'r cyhoedd ledled Caerdydd a Bro Morgannwg, er mwyn casglu eu barn a'u profiadau o gael mynediad at Wasanaethau'r GIG.


Lluniodd a chyhoeddodd CIC De Morgannwg arolwg ar-lein i gael adborth gan gleifion am eu profiadau wrth geisio mynediad at Wasanaethau Cardiaidd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.



Rhestrwyd yr arolwg ar ein gwefan, a chafodd gyhoeddusrwydd trwy ein sianelau cyfryngau cymdeithasol Facebook a Twitter. Hefyd, cafodd manylion yr arolwg eu cynnwys yn ein briffiau rheolaidd i randdeiliaid. Roedd yr arolwg ar gael i'w gwblhau yn Saesneg a Chymraeg, fel ei gilydd.

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein i'w lenwi o 31 Awst 2021 i 29 Tachwedd 2021 ac 11 Ionawr 2022 i 31 Mawrth 2022. Ynndo gofynnwyd i ymatebwyr roi gwybodaeth am y canlynol:

- ❖ Llwybr Atgyfeirio.
- ❖ Y cyfnod aros o'r atgyfeirio i'r apwyntiad, ar gyfer diagnosteg a llawdriniaeth.
- ❖ Boddhad a phrofiad y claf yn ystod yr apwyntiad cyntaf, diagnosteg a llawdriniaeth.
- ❖ Effeithiau oedi ar iechyd meddwl, llesiant ac ansawdd bywyd.
- ❖ Cyfathrebu a monitro.
- ❖ Awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth.



Pwy sy'n cysylltu â ni

Roedd arolwg y CIC yn agored i gleifion oedd ag unrhyw brofiad o ymwneud â Gwasanaethau Cardiaidd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, yn ogystal â'r rheiny oedd yn aros am eu hapwyntiad cyntaf ar ôl cael eu cyfeirio gan weithwyr neu wasanaeth Gofal Iechyd proffesiynol arall.

Cafodd y CIC gyfanswm o 50 arolwg ar-lein Saesneg wedi'u cwblhau, er nad oedd pob ymatebwr wedi ateb pob cwestiwn.

50 (100%) o ymatebwr wedi dewis llenwi fersiwn Saesneg ein harolwg.	10 (20%) o ymatebwr yn dal i aros am eu hapwyntiad cyntaf gyda'r Gwasanaethau Cardiaidd	18 (36%) o ymatebwr wedi cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cardiaidd yn dilyn ymweliad i'r ysbyty.
30 (60%) o ymatebwr wedi cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cardiaidd gan eu Meddyg Teulu.	9 (18%) o ymatebwr yn dal i aros am eu hapwyntiad diagnostig cyntaf.	4 (8%) o ymatebwr yn dal i aros am eu llawdriniaeth.



Beth a Glywsom


Cipolwg....

<p>21 (42%) o bobl wedi cael eu gweld gan y Gwasanaethau Cardiaidd o fewn 0-2 mis o'u hatgyfeiriad cyntaf.</p>	<p>31 (79%) o bobl o'r farn bod eu profiad o'r apwyntiad yn gadarnhaol.</p>	<p>20 (50%) o bobl wedi derbyn eu hapwyntiad diagnostig 0-2 mis ar ôl eu hapwyntiad cyntaf.</p>
<p>26 (90%) o bobl o'r farn bod eu profiad diagnostig yn gadarnhaol.</p>	<p>19 (61%) o bobl wedi derbyn eu llawdriniaeth o fewn 0-2 mis o'u hapwyntiad diagnostig.</p>	<p>22 (96%) o bobl o'r farn bod eu profiad o'u llawdriniaeth yn gadarnhaol.</p>
<p>13 (35%) o bobl wedi profi oedi cyn cael eu hapwyntiadau cyntaf gyda'r Gwasanaethau Cardiaidd oherwydd y pandemig.</p>	<p>12 (55%) o bobl wedi profi oedi o ran diagnosteg oherwydd y pandemig.</p>	<p>3 (19%) o bobl wedi profi oedi cyn cael llawdriniaeth oherwydd y pandemig.</p>
<p>0 (Neb) wedi nodi eu bod wedi cael gwybodaeth ddigonol am yr oedi, na gwybodaeth glir ar sut y byddai eu hapwyntiad gohiriedig yn cael ei drefnu o'r newydd.</p>	<p>17 (35%) o bobl yn nodi eu bod yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Tîm Cardiaidd.</p>	<p>33 (72%) o bobl yn dyfarnu bod eu profiad cyffredinol o'r Gwasanaethau Cardiaidd yn gadarnhaol.</p>



Amserau Aros

Apwyntiadau

O'r cleifion hynny a gafodd apwyntiad gyda'r Gwasanaethau Cardiaidd, dengys ein harolwg fod **33** (82.5%) wedi derbyn eu hapwyntiad cyntaf o fewn 6 mis o'u hatgyfeiriad cyntaf.




Siomedig oedd nodi bod **2** (0.5%) glaf wedi aros rhwng 10 i 12 mis am eu hapwyntiad cyntaf gyda'r Gwasanaethau Cardiaidd, a **2** glaf ychwanegol (0.5%) wedi aros mwy na 12 mis.



O'r 10 ymatebwr a nododd yn yr arolwg eu bod yn dal i aros am eu hapwyntiad cyntaf gyda'r Gwasanaethau Cardiaidd, mae'r cyfnod amser y maent wedi aros hyd yma yn amrywio o ychydig wythnosau i 6 mis. Nododd un



ymatebwr eu bod wedi aros yn 'rhy hir' ac un arall yn nodi 'methu cofio'.



Diagnosteg

Pan ofynnwyd i'r cleifion hynny a gafodd eu cyfeirio ar gyfer diagnosteg ar ôl eu hapwyntiad cyntaf, nododd **26** (84%) o ymatebwyr iddynt dderbyn eu hapwyntiad diagnostig o fewn 6 mis o gael eu cyfeirio.

Unwaith eto, siomedig oedd nodi bod **5** (16%) o ymatebwyr wedi aros rhwng 6 - 12 mis am eu hapwyntiad diagnostig yn dilyn eu hatgyfeiriad.



O'r 9 ymatebwr a ddywedodd eu bod yn dal i aros am eu hapwyntiad diagnostig cyntaf, dywedodd un ymatebwr:-

'D oedd y sgan roeddwn ei angen ddim ar gael yn ysbytai Cymru. Roedd rhaid i fi deithio i Loegr. Gwarthus! Prawf Straen Darlifiad Cardiaidd MRI'



Adroddodd eraill eu bod yn aros rhwng 3 mis a 7 mis hyd yma am eu hapwyntiad diagnostig cyntaf.

Llawdriniaeth

Yn dilyn eu hapwyntiad diagnostig, roedd **19** (70%) o gleifion a gyfeiriwyd am llawdriniaeth, wedi cael eu llawdriniaeth o fewn 2 fis o'u hatgyfeiriad.



Cafodd **5** (19%) o gleifion ychwanegol eu llawdriniaeth rhwng 2 – 4 mis, yn dilyn eu hatgyfeiriad.




O'r pedwar ymatebwr a nododd eu bod yn dal i aros am eu llawdriniaeth, adroddodd un ohonynt ei fod wedi aros 'mwy na blwyddyn' hyd yn hyn am eu hapwyntiad llawdriniaeth.

Profiad y Claf


Apwyntiadau

Gofynnodd ein harolwg i'n hymatebwyr i roi eu barn am eu profiad yn ystod eu hapwyntiad cyntaf gyda'r

Gwasanaethau Cardiaidd.



Dyfarnodd **28** (72%) o ymatebwyr i'w profiad fod yn un cadarnhaol, gydag **19** (49%) o ymatebwyr o'r farn bod eu profiad yn 'ardderchog'.



Mae sylwadau cadarnhaol yr ymatebwyr yn amlygu'r gofal rhagorol a gawsant, a'r ganmoliaeth uchel sydd ganddynt i'r staff a fu'n gofalu amdanynt.

Mae gen i cardiomyopathi ymledol a 'd oes gen i ddim ond canmoliaeth i'r gwasanaeth cardiaidd a'r gofal yn Ysbyty Athrofaol Cymru a Llandochoau – dim byd llai na rhagorol! Ces fy nhrin gyda'r parch mwyaf a'r gofal gorau, a ches fy nhrin yn ardderchog. Rwy'n cael archwiliadau rheolaidd yn YAC gan fod gen i ICD wedi'i osod, a dim trafferthion nac oedi gydag unrhyw apwyntiadau, triniaethau nac amserau aros.

'Fe ges i ataliad y galon 4 blynedd yn ôl, ac wrth reswm fe ges i driniaeth yn gyflym iawn ac rwy'n cael archwiliad bob blwyddyn.'

'Croeso cynnes, amser aros lleiaf posibl – y staff i gyd yn hyblyg iawn o ran fy apwyntiadau.'

***'Cefais driniaeth gyflym i newid fy
falf aortig ddiffygiol, ac fe ges i
ofal ardderchog ym mhob ysbyty
y bues ynddynt, yn enwedig o ran
y llawdriniaeth yn Ysbyty
Llandochau'***

***'Roedd y safon gofal a ges i yn
Ysbyty Athrofaol Cymru pan ges
drawiad ar y galon yn anhygoel.
Roedd pob nyrs yn siaradus a
gofalgar a phob doctor yn
esbonio popeth oedd yn digwydd
i fi – does gen i ddim cwynion'***

***'Roedd fy apwyntiad
cyntaf gyda'm Meddyg
Teulu yn ardderchog a'r
sgwrs ffôn ddilynol
gyda'r nyrs
ymgynghorol'.***

**'Ardderchog
bob tro'**

**'Yn fy marn i, roedd y clinigau'n
rhagorol. Roedd yr ymgynghorydd
a'i dîm yn help mawr wrth
gynllunio'u camau nesaf. Rôn
nhw'n egluro popeth yn glir gan roi
tawelwch meddwl i fi.'**

Gyda siom y nododd y CIC bod **8** (21%) o ymatebwyr wedi teimlo bod eu profiad o'u hapwyntiad yn un 'Gwael' neu 'Gwael Iawn'

Roedd sylwadau'r ymatebwyr am brofiadau negyddol eu hapwyntiadau yn cynnwys anfodlonrwydd o ran yr amser bu'n rhaid iddynt aros am eu hapwyntiad, anawsterau gyda lleoliad eu hapwyntiad, staff o safon wael a diffyg cyswllt neu wybodaeth ddilynol:-

**'Staff
anghyfeillgar'**

'Ches i ddim apwyntiad. Rôn i ar y rhestr aros ond es i wedyn i A&E fel mater o frys. Roedd y driniaeth yn fy ysbyty yn rhagorol ond mae'r gwasanaeth i gleifion allanol yn wael iawn.'

'Ychydig funudau oedd yr apwyntiad i gael EEG. Dim gwybodaeth go iawn. Aeth dau fis heibio cyn cael llythyr y canlyniadau, amser gofidus.'

'Bydden ni wrth ein bodd cael clinig yn Llandochau i oedolion sydd â chlefyd cynhenid y galon – mae'n anodd iawn cyrraedd YAC a fedrwn ni ddim fforddio tacsî, neu o leiaf ar gyfer y profion ecocardiograffeg sydd i'w gwneud yn gyson yno, ac rydym yn parhau ag ymgynghoriadau ffôn

'Aros yn hir i gael yr apwyntiad cyntaf. Roedd y doctor a welodd fi am flynyddoedd wedi rhoi diagnosis anghywir i fi'



'Angen cael gwell doctor a gwell staff derbynfa'

'Ar ôl mynd i A&E roedd rhaid fy nerbyn i'r ysbyty gydag 'AF'. Cyfradd curiad y galon dros 200. Rwyf ar lawer o feddyginiaeth gan gynnwys 'amiodarone'. Ers hynny, dydw i ddim wedi gweld neb. Rwyf wedi cael 1 prawf eco sy'n dangos bod fy nghalon wedi chwyddo. Mae'n frawychus iawn ac mae'r ôl-ofal wedi bod yn warthus. Mae'r wybodaeth a gaf yn fy apwyntiadau ffôn yn gwrthddweud ei gilydd. Mae gen i apwyntiad ffôn arall heddiw ac os na chaf atebion, byddaf yn mynd yn breifat. Rwy'n ddigon lwcus mod i'n gallu fforddio hyn. Ces ddiagnosis 13 mis yn ôl a dydw i heb weld neb wyneb yn wyneb''.

Diagnosteg

Gofynnodd ein harolwg barn i'r ymatebwyr roi eu barn am eu profiad cyffredinol yn ystod eu hapwyntiad diagnostig.

Dyfarnodd **23** (79%) eu profiad diagnostig fel un cadarnhaol, ac **18** (62%) o ymatebwyr o'r farn bod eu profiad diagnostig yn 'Ardderchog'



Roedd sylwadau cadarnhaol yr ymatebwyr wrth ddyfarnu eu profiad o apwyntiadau diagnostig yn canmol cyfathrebu da, y staff ac archwiliadau amserol.

'Proffesiynol a chynhwysol'.

'Mae'r triniaethau'n cael eu cynnal i safon uchel bob amser a'r staff bob amser yn hapus i egluro'r driniaeth yn drwyadl fel eich bod yn gwybod beth sy'n digwydd a'ch bod yn cael tawelwch meddwl.

'Cafodd y rheswm am yr ataliad ar fy nghalon ei archwilio'n gyflym iawn'

'Ces wybod y byddai'r apwyntiad dilynol ymhen 3 mis, a 3 mis y bues i'n aros. Ardderchog!'




Siomedig oedd nodi bod **3 (10%)** o ymatebwyr wedi dyfarnu eu profiad diagnostig fel un 'Gwael' neu 'Gwael Iawn'.

Roedd sylwadau negyddol yr ymatebwyr yn cyfeirio at orfod aros yn hir am ganlyniadau, a diffyg gwybodaeth yn cael ei roi yn ystod y sesiwn diagnosteg.

'Gymerodd hi wythnosau i gael y canlyniad'

'Dim gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ystod sgan y galon. Mewn llythyr dilynol wythnosau'n ddiweddarach, soniwyd am chwydd bychan ar yr ochr chwith ond dim angen dilyn y peth vmhellach'.'




Llawdriniaethau

Gofynnodd ein harolwg i ymatebwyr roi eu barn am eu profiad o'u llawdriniaeth.

Roedd **21**(91%) o gleifion o'r farn bod eu profiad yn gadarnhaol, gydag **17** (74%) o ymatebwyr yn dyfarnu eu profiad fel 'Ardderchog'.



17
1
3
1
0
1



Roedd ymatebwyr yn canmol y staff a'r gofal a gawsant:-

'Roedd y profiad yn ddi-fai'

'Roedd y gofal yn wych yn ystod fy amser yn yr ysbyty'


'Roedd fy llawfeddyg yn gysurlon iawn gan fy ymlacio yn ystod y llawdriniaeth 2 awr'

'Roedd y driniaeth a'r gofal a ges i yn Ysbyty Llandochau yn eithriadol'

'Ces fy nhrin gyda'r parch mwyaf a'r gofal gorau posibl gan wneud i mi deimlo'n saff a'u bod yn gofalu'n dda amdana'i'

Dim ond **1** (4%) ymatebwr a nododd bod ei brofiad o'i lawdriniaeth yn un '*Gwael Iawn*' ond ni roddodd unrhyw sylw pellach am ei brofiad.

Gofynnodd ein harolwg hefyd i'n hymatebwr roi eu barn am eu profiad yn gyffredinol gyda'r Gwasanaethau Cardiaidd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg



Dyfarnodd **33** (72%) o ymatebwyr eu profiad cyffredinol yn gadarnhaol, gydag **16** (35%) yn dyfarnu eu profiad fel un 'Ardderchog'.



Nododd ymatebwyr eu canmoliaeth uchel i staff oedd yn gofalu amdanynt yn ogystal â thriniaethau trylwyr, proffesiynol ac amserol.

'Trylwyr a phroffesiynol iawn'

'Bendigedig'

'Ymateb cyflym iawn pan welwyd bod gan fy merch furmur ar y galon. Anfonon nhw rywun i'r NICU o fewn ychydig oriau i sganio ei chalon.'

'Rwy'n hoffi meddwl bod y tîm cardiaidd yn gwybod beth maen nhw'n wneud gyda chleifion'

'Rwy'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth yn gyffredinol, er bod Covid wedi gohirio fy apwyntiadau'

'Roedd y profiad cyfan, o'r diagnosis cychwynnol, y llawdriniaeth a wedyn y broses adfer yn wych'

'Mae Dr (enw wedi'i ddileu) wedi gofalu am fy mab ers oedd yn bythefnos oed. Mae'n rhagorol. Rydym mor falch ei fod yn y Clinig Oedolion hefyd'

'Roedd y Tîm Cardiaidd yn ardderchog ond roedd rhai o'r nyrsys nos ddim yn neis iawn ac yn amharod i'ch helpu chi'



Siomedig oedd nodi bod **14** (30%) wedi dyfarnu eu profiad fel un 'Gwael' neu 'Gwael Iawn'.

Roedd sylwadau negyddol yr ymatebwyr wrth ddyfarnu'r Gwasanaethau Cardiaidd yng Nghaerdydd a'r Fro yn nodi'r diffyg cyfathrebu rhwng y Gwasanaethau Cardiaidd a chleifion yn ogystal â diffyg cyfathrebu rhwng gwahanol adrannau o'r GIG. Roedd sylwadau eraill yn cyfeirio at amserau aros am apwyntiadau, diagnosteg a thriniaethau, neu'r diffyg gwasanaethau ar gael yng Nghymru yn gorfodi cleifion i deithio i Loegr.

'Hanes blaenorol o ataliad y galon a thrawiad ar y galon, symptomau clefyd y galon, dal i aros am yr apwyntiad atgyfeirio 1af a sgan'

'Meddyg Teulu a'r cardiolegydd ddim yn cysylltu a chyfathrebu â'i gilydd i drafod y diagnosis cychwynnol'

'Ces fy anfon o'r ysbyty yn rhy fuan'

'Mae 12 mis o'r adeg y ces fy nghyfeirio a chael fy ngweld a minnau'n bryderus iawn am fy symptomau yn fy marn i yn annerbyniol. Mae'n bosib mod i wedi cael Covid a effeithiodd ar fy nghalon ym Mawrth 2020 – cyflymder y galon yn disgyn o dan 40 curiad y munud. D'wedodd y doctor wrthyf am ffonio 111 pe bawn yn mynd yn anymwybodol /llewygu?!?'

'Byddai'n well pe bai'r llythyr wedi egluro pam y gofynnwyd i fi ddod yn ôl gan fod peidio â gwybod na chael apwyntiad penodol yn peri gofid'

'Mae'r gwasanaeth i gleifion allanol yn wael - cymaint o gwestiynau heb eu hateb. Does gen i ddim syniad beth sy'n digwydd – achosi gofid mawr'

**'Dim
triniaeth
hyd yma'**

**'Nhw'n
ymddangos
yn ddi-hid'**


**'D yw'r sgan sydd ei angen
arna' i ddim ar gael yn ysbytai
Cymru. Roedd rhaid i mi deithio
i Loegr. Gwarthus! Prawf
Straen Darlifiad Cardiaidd MRI.'**



Oediadau

Oherwydd y pwysau'n deillio o bandemig Covid-19, gwelir oedi o ran apwyntiadau, diagnosteg a thriniaethau drwy'r GIG i gyd.

Gofynnwn ni i ymatebwyr os oeddent wedi profi unrhyw oediadau o ganlyniad i'r pandemig.



Nododd **13** (35%) o ymatebwyr ieu bod wedi profi oedi cyn cael eu hapwyntiadau oherwydd Covid-19.



Nododd **12** (55%) o ymatebwyr eu bod wedi profi oediadau gyda diagnosteg oherwydd Covid-19.



Nododd **3** (19%) o ymatebwyr i'w Llawdriniaeth gael ei ohirio oherwydd Covid-19.



3

13



Rhoddodd ein harolwg gyfle i ymatebwyr roi gwybodaeth bellach am yr oedi a ddaeth i'w rhan:-

'Y tro cyntaf es i am lawdriniaeth traed, doedd dim modd ei gwneud oherwydd cymhlethdodau. Roedd rhaid i mi aros 8 mis arall cyn ges i'r driniaeth.'

'O ran rhestrau aros, Covid yn cael ei feio am yr ôl-groniad!!!'

'Fe ganslwyd fy apwyntiad archwiliad yn ystod y pandemig, ond ges i ymgynghoriad ffôn, a hefyd mae gen i fonitor, a diffibrilwr rheoliadur curiad y galon wedi'i osod, felly os oes problem bydd staff yr ysbyty yn gwybod ac yn gofyn i'm gweld mor fuan ag y bo modd'

***'Annerbyniol beio Covid
am restrau aros. Os oes
gennych gyflwr ar y galon,
mewn theori gallwch gael
strôc neu drawiad ar y
galon!!***

***'Wnawn ni ddim defnyddio
cludiant cyhoeddus oherwydd
Covid ac rydyn ni'n ffeindio hi'n
anodd cyrraedd Ysbyty Athrofaol
Cymru ar hyn o bryd. Byddai
clinig ar gyfer ACHD yn
Llandochau i'w groesawu'n fawr***

***'Yn aros
am Eco'***


***"Yn dal i aros am
sgan 'brys' er bod
gen i hanes o
ataliad y galon."***

***"Yn dal i aros
am
apwyntiad."***

Roeddem eisiau clywed yn benodol sut oedd yr oediadau hynny wedi effeithio cleifion o ran eu hiechyd meddwl, llesiant ac ansawdd bywyd. Nid yn annisgwyl, cyfeiriodd yr ymatebion at gynnydd mewn lefelau straen a gorbryder gan effeithio ar ansawdd bywyd y cleifion hynny oedd yn dioddef.

***"Mae fy ngorbryder wedi
mynd drwy'r to. Rwyf fod
i gael rheoliadur y galon ac
rwy'n poeni bob dydd a
ydw i'n saff ai peidio."***

***"Lot o
straen"***




Cyfathrebu

Roedd y CIC yn awyddus i glywed gan gleifion am y cyfathrebu fu rhyngddynt hwy â'r GIG ynglŷn â'r oediadau hyn.

Gofynnnon ni i gleifion a oeddent wedi cael digon o wybodaeth am yr oedi yn eu hapwyntiadau, diagnosteg a thriniaeth.

Dim ond 3 o'r ymatebwyr a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn ond nododd pob un ohonynt nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth yn ymwneud â'r rhesymau am yr oedi.



Gofynnnon ni wedyn a oedd yr ymatebwyr wedi cael gwybodaeth glir ynghylch sut fyddai eu hapwyntiad gohiriedig yn cael ei ail-drefnu?


Unwaith eto, dim ond 3 pherson a atebodd y cwestiwn hwn, a dywedodd pawb nad oeddent wedi cael gwybodaeth glir ynghylch y broses ail-drefnu.



Monitro

Gofynnodd ein harolwg i ymatebwyr roi gwybodaeth am unrhyw fonitro oedd yn cael ei ddarparu gan y Tîm Cardiaidd.

Cadarnhaodd **17** (35%) o ymatebwyr eu bod yn cael eu monitro gan y Tîm Cardiaidd.



Ymhlith y sylwadau cadarnhaol a gafwyd am y monitro hwn roedd canmoliaeth uchel i staff a'r cyswllt rheolaidd oddi wrth y Gwasanaethau Cardiaidd.

"D'wedodd y doctor (enw wedi'i ddileu) wrthyf ar ôl yr apwyntiad dilynol cyntaf nad oedd angen monitro bellach ond d'wedodd pe bai problemau'n codi i mi ffonio ei glinig e'n uniongyrchol yn hytrach na mod i'n mynd at y Meddyg Teulu."

"Alla i ddim canmol y tîm ddigon!"

"Rwy'n cael archwiliadau'n flynyddol.."

"Ar ôl llawdriniaeth lwyddiannus, ces fy rhyddhau a chael apwyntiadau ar gyfer amrywiol wasanaethau i gleifion allanol."

"Ges i angiogram, angen stent a threfnwyd hyn ar gyfer yr wythnos ganlynol. Pan oeddwn ar fin gadael, dechreuais golli gwaed, syth i'r theatr, yna'r Uned Gofal Dwys – gwasanaeth rhagorol."

"Roedd rhaid fy symud o Landochau i Ysbyty Athrofaol Cymru. Nawr rwy'n cael fy ngweld yn rheolaidd."

Roedd y CIC yn siomedig nodi bod y sylwadau negyddol a dderbyniwyd mewn ymateb i'n cais am wybodaeth ychwanegol ynghylch y monitro gan y Gwasanaethau Cardiaidd, yn fwy niferus na'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd.

Nododd cleifion ddiffyg mewn cyfathrebu, diffyg gofal gan staff, ac i bob golwg, diffyg diddordeb gan staff yn y claf.

Roedd gan gleifion eraill ddiffyg dealltwriaeth o'u cynlluniau gofal a theimlent nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth am eu cyflwr, triniaeth neu feddyginiaeth.

Nododd eraill bod rhywfaint o fonitro yn digwydd ond nid ar adeg y teimlent oedd yn briodol, neu roeddent yn mynegi pryderon am y diffyg dilyniant gan y Gwasanaethau Cardiaidd.

"Gwelwyd bod gan fy merch, a anwyd 7 wythnos yn gynnar, furmur ar y galon pan gafodd ei geni. Cafodd hi archwiliad cyn ei rhyddhau a ches wybod y byddai angen apwyntiad dilynol i gael archwiliad ar ei chalon. Rwy'n dal i aros am ddyddiad i'r apwyntiad hwn."

"Iawn os yw 3 galwad ffôn mewn 12 mis yn cael ei ystyried yn normal."

"D'wedodd derbynnydd yn y Feddygfa wrthyf nad oedd ganddynt ganlyniad yno, ac felly i fi ffonio'r ysbyty. Dim ateb"

"Wnaethon nhw archwilio curiad fy nghalon, a dweud ei fod yn iawn ac anfonwyd fi adre. Dim gofal o gwbl yno bellach. Maen nhw eisiau chi mewn ac allan yn gyflym."

"Rôn i yn Ysbyty Athrofal Cymru, Parc y Mynydd Bychan. Es yno mewn ambiwlans ac i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Roedd y nyrsys a roddodd gyfweliad i fi gyntaf yn anghwrtais iawn - ac wedi'i ysgrifennu ar fy ffeiliau oedd 'salwch er mwyn sylw'. A dydw i ddim yn gwybod pam?? Rôn i mewn poen ofnadwy ac yn wir, yn methu ymdopi â'r poenau. Ges i brofiad gwael yn yr Adran honno. Hoffwn gael fy enw wedi'i ddileu o'r celwydd hwn, sy'n ddryswch llwyr i fi. Plîs helpwch fi i wybod beth ddylwn i wneud i gael fy nhrin yn deg a chvflvm."

**"Roedd yr
Athro a alwodd
fel tase ddim
diddordeb 'da
fe."**

**"2 apwyntiad, ond
dim gweld
cardiolegydd a
dim dilyniant"**

**"Fel claf allanol, rwy'n cael
galwadau ffôn bob 6 mis ond y
rhan fwyaf o'r amser does gen i
ddim syniad beth sy'n mynd
'mlaen. Maen nhw'n newid fy
meddyginiaeth a dydw i ddim
yn cael dilyniant."**

**"Cafodd fy ngallu i
gerdded ei fonitro yn
Rhagfyr. Ces ddolen i
holiadur. Dal i aros am
ddyddiad yr
apwyntiad."**



Gellid hefyd ystyried cwestiwn olaf ein harolwg fel yr un pwysicaf oll. Gofynnodd y CIC i ymatebwyr roi gwybodaeth ar sut fywyd sydd ganddynt a hwythau ar y rhestr aros am Wasanaethau Cardiaidd.

Nid yn annisgwyl, rhoddodd ymatebwyr enghreifftiau o ddirywiad yn eu hiechyd meddwl, cynnydd yn y lefelau straen, byw mewn ofn o'u cyflwr, gyda rhai yn disgrifio eu bywydau *'ar stop'*.

Eglurodd cleifion bod rhaid iddynt fod yn fwy gofalus o'r hyn roeddent yn wneud bob dydd rhag gwaethygu eu cyflwr iechyd, wrth geisio byw eu bywydau. Mae'r diffyg gwybodaeth ynghylch eu cyflwr neu driniaeth yn achosi llawer o orbryder a gofid.

"Pryderus."

"Ymdopi ond yn ofalus i beidio ymestyn gormod ."

"Newydd gael diagnosis ar ôl rhoi gwybod am fy symptomau lawer gwaith. Rwy'n ofidus iawn y gallwn gael strôc/trawiad ar y galon unrhyw bryd. Mae hyn yn straen meddyliol a chorfforol!. Fy mywyd ar stop!!"

"Pryderu am y canlyniad"

"Hollol ofnadwy, peidio gwybod yw'r rhan waethaf"

"Rwy'n ceisio peidio poeni gormod. Rhaid i fywyd fynd yn ei flaen"

"Brawychus"

"Mae hyn yn bryder mawr."

"Mae'r ffaith bod gen i broblemau cardiaidd a heb gael y canlyniadau yn achosi straen sy'n gwaethygu'r sefyllfa."

"Mae'n eich gwneud yn ofidus ac rŷch chi'n poeni'n gyson am eich iechyd."

"Awyddus i wybod beth sy'n bod arna' i... mae fy anadlu, poen a'm symudedd yn gwaethygu."

"Rydw i wedi mynd yn breifat."

Awgrymiadau am Welliannau

Ym mhob un o arolygon y CIC ceir cwestiwn lle gofynnwn i ymatebwyr rannu â ni eu hawgrymiadau posibl ar sut gellid gwella eu profiadau, yn yr achos hwn gyda'r Gwasanaethau Cardiaidd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.



Rhoddwyd yr awgrymiadau canlynol:-

- ❖ Cyflogi mwy o staff
- ❖ Gwella'r cyfathrebu rhwng staff a chleifion, yn ogystal â rhwng gwahanol adrannau'r GIG.
- ❖ Sicrhau bod apwyntiadau wyneb yn wyneb ar gael os gofynnir amdanynt.
- ❖ Gwella'r wybodaeth a roddir i gleifion am eu meddyginiaeth, cynlluniau triniaeth, rhesymau am oediadau a sut fyddai apwyntiadau gohiriedig yn cael eu hail-drefnu.
- ❖ Gwella ôl-ofal.
- ❖ Gwella'r isadeiledd i Ysbyty Athrofaol Cymru.
- ❖ Rhoi mwy o adborth i gleifion yn dilyn triniaeth.

- ❖ Sicrhau bod y gwasanaethau a gynigir yn Lloegr ar gael hefyd yng Nghymru.
- ❖ Gwella safon prydau bwyd yn yr ysbytai.

"Hoffwn i weld meddyg wyneb yn wyneb."

"Byddai cadarnhad syml yn help."

"O leiaf, cadwch i fyny â Lloegr o ran darpariaeth gwasanaethau a thriniaethau diagnostig."

"Ffoniwch gyda'r canlyniadau, er rwy'n cydnabod bod staff yn brysur"

"Roedd y cyfathrebu mor wael. Cymerodd y llythyrau dilynol gyda'r canlyniadau gymaint o amser. Byddwn wedi hoffi gweld doctor go iawn, ond ces fy ngweld gan 'ymarferwyr'... Yn y 2 flynedd ddiwethaf, does neb wedi cymryd fy mhwysau gwaed na chymryd gwaed...."

"Y llawr Cardiaidd yr ysbyty yn ddiffygiol iawn ac angen tipyn o fuddsoddi. Dim digon o staff. Isadeiledd yn wael iawn. Mae'r rhestrau aros yn bendant yn broblem. Hefyd mae gen i glefyd cynhenid y galon a'r meddyg o'r farn nad ydw i angen archwiliadau rheolaidd. Roedd rhaid i mi fynnu mod i'n cael fy ngweld gyda nhw. Am flynyddoedd fe fethon nhw ganfod aorta chwyddedig."

"Gallaf roi mwy o adborth ar ôl y driniaeth."


"Doeddwn i ddim yn credu bod yr ôl-ofal yn dda iawn."

"Atgyfeiriadau cychwynnol cynnar trwy'r Meddyg Teulu ac apwyntiadau cynnar gyda'r cardiolegydd.."

"Gallai'r bwyd fod llawer gwell."

"Byddai cael mwy o ddoctoriaid, nyrsys a staff yn gwneud gwahaniaeth enfawr gan eu bod i gyd yn rhuthro o gwmpas yn gwneud llawer iawn o jobsys eraill heblaw eu rhai nhw. Rhan fwyaf o'r staff yn edrych wedi ymlâdd. .."

"Eglurwch y feddyginiaeth. Rôn i'n arfer cymryd 'amiodarone' a oedd yn codi ofn arna i gan ei fod mor wenwynig. Yna penderfynon nhw roi stop ar bopeth. Angen mwy o sesiynau dilynol ynglŷn â'r feddyginiaeth a mwy o eglurhad."



Dysgu o'r hyn a glywsom

O ganlyniadau ein harolwg, gallwn weld bod mwyafrif y cleifion a gafodd gyswllt â'r Gwasanaethau Cardiaidd yng Nghaerdydd a'r Fro yn adrodd eu bod wedi cael profiad cadarnhaol.

Mae'r amserau aros am apwyntiadau, diagnosteg a thriniaethau wedi cynyddu trwy gydol y pandemig, ond mae'n galonogol gweld bod mwyafrif y cleifion wedi cael eu gweld gan Glinigydd am eu hapwyntiad cyntaf, diagnosteg neu lawdriniaeth o fewn 2 fis o gael eu hatgyfeirio.

Mae'n fater o bryder nodi bod cleifion yn adrodd iddynt aros 12 mis a throsodd am eu hapwyntiadau cyntaf gyda'r Tîm Cardiaidd, apwyntiadau diagnosteg neu lawdriniaeth, hefyd i glywed bod angen i rai cleifion deithio i Loegr am apwyntiadau diagnostig gan nad yw rhai o'r gwasanaethau hyn ar gael i gleifion yma yng Nghymru. Mae hyn yn anfantais i rai adrannau o gymdeithas a gallai rwystro mynediad at y triniaethau diagnostig hynny i gleifion o gefndir economaidd-gymdeithasol is.

Calonogol oedd clywed bod mwyafrif y cleifion a holwyd wedi dyfarnu bod eu profiad yn ystod eu hapwyntiadau, diagnosteg neu lawdriniaeth yn rhagorol.

Gan mwyaf, cafodd staff ganmoliaeth uchel yn holl ymatebion yr arolwg ond siomedig hefyd oedd clywed weithiau bod agwedd neu ymddygiad staff ddim yr hyn y byddai cleifion yn ei ystyried yn briodol.

Mae cleifion wedi dweud wrthym fod bywyd ar y rhestr aros ar gyfer Gwasanaethau Cardiaidd yn ychwanegu at eu pryder a'u hofn. Roedd rhaid iddynt fod yn fwyfwy gofalus neu gyfyngu ar eu gweithgareddau dydd-i-ddydd arferol mewn ymdrech i osgoi gwaethygu eu cyflyrau neu symptomau, a bywyd yn cael ei ddisgrifio fel pe bai *'ar stop'*.

Mae canlyniadau'r arolwg hwn wedi dangos yn glir bod cyfathrebu a gwybodaeth yn hollbwysig. Mae cyfathrebu gwael a diffyg gwybodaeth o ran cynlluniau gofal, meddyginiaeth, apwyntiadau, triniaethau, oediadau a chanlyniadau yn gwneud dim ond cynyddu'r dioddefaint emosiynol a'r gofid a ddaw i ran cleifion sydd â phroblemau Cardiaidd.

Mae cleifion yn deall y pwysau a wynebir gan y GIG a'i staff oherwydd pandemig Covid-19, ond wrth i fywyd ddechrau dychwelyd i 'normal' o ran rheoliadau a chyfyngiadau Covid, mae rhai cleifion yn awr yn nodi mai esgus cyfleus yw hyn a ddefnyddir gan y GIG am unrhyw broblem sy'n codi neu oediadau a wynebir, ac nid yw hyn yn dderbyniol i laser o gleifion mwyach.

Diolchiadau

Diolchwn i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau â ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal, ac i rannu eu syniadau.

Gobeithiwn y bydd yr adborth y mae pobl wedi neilltuo amser i'w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i wybod a thrysori beth maent yn ei wneud yn dda – ac iddynt weithredu lle bo angen mor fuan ag y bo modd i wella pethau.

Adborth

Byddem wrth ein bodd clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn a'ch awgrymiadau ar sut y gallem fod wedi gwella arno, fel y gallwn ddefnyddio hyn i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg a Chymraeg.



Manylion cyswilt



CIC De Morgannwg / South Glamorgan CHC
Canolfan Fusnes Pro Copy (Cefn)/ Pro Copy
Business Centre (Rear)
Parc Tŷ Glas
Llanisien/Llanishen
Caerdydd / Cardiff
CF14 5DU



02920 750112



SouthGlam.chiefficer@waleschc.org.uk



www.southglamorganchc.wales



www.facebook.com/SouthGlamCHC



www.twitter.com/SouthGlamCHC

Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg,
byddwn yn ateb yn Gymraeg. Fydd hyn ddim yn
arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.

Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg

